Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl385

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid ar gyfer Calon Tysul**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Wedi'i ffurfio yn 2017, Sefydliad Corfforedig Elusennol yw Calon Tysul sy'n darparu gwasanaethau chwaraeon a hamdden. Maen nhw'n cefnogi, yn ysbrydoli ac yn annog preswylwyr Llandysul a'r ardaloedd cyfagos i gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau cymdeithasol.

Mae'r ganolfan yn croesawu aelodau bregus, gan gynnwys defnyddwyr anabl, plant a phobl oedrannus, gan sicrhau man diogel o fewn y gymuned.

Mae rhaglen o waith yn mynd rhagddi i gyflwyno mesurau diogelu a diogelwch modern i gefnogi monitro'r cyfleusterau yn fewnol ac yn allanol. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch staff ac aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed ac yn eu gwarchod rhag niwed.

Mae Calon Tysul wedi ceisio cyngor arbenigol gan bartneriaid plismona ar sicrhau'r datrysiadau mwyaf priodol ac yn ceisio cyllid rhannol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i alluogi'r argymhellion hyn i gael eu gwireddu.

Mae hyn yn bodloni blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o Atal Niwed.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod £14,600.00 yn cael ei roi o Gyllideb Cronfa'r Comisiynydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 02/06/2025**